Hawdd ei ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa Gwytnwch

## Arian i helpu sefydliadau i gadw swyddi ac aros yn gryf

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Cyllid i Gyrff i Gefnogi Diogelwch a Gwytnwch Swyddi'

**Hydref 2024**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** cefnogibusnes@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth yr ydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y gronfa yma** ........ 4

**Ar gyfer beth mae'r cyllid yma** ........ 6

**Beth sydd angen i chi ei wneud** ........ 9

**Y rheolau am pwy sydd yn gallu bod yn gymwys** ........ 10

**Sut i wneud cais** ........ 12

**Sut byddwn ni yn asesu eich cais** ........ 16

**Pryd i wneud cais** ........ 18

# Am y gronfa yma

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Rydyn ni yn rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Mae angen mwy o arian ar sector y celfyddydau yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi rhoi arian i ni i helpu i ddiogelu swyddi a gwneud sector y celfyddydau yn gryfach.



Rydyn ni eisiau rhoi'r arian i'r rhai sydd ei angen fwyaf, cyn gynted ag y gallwn.



Fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar sefydliadau sydd angen y cymorth mwyaf.



Fe fydd y canllaw yma yn dweud popeth wrthych chi am y gronfa a sut i wneud cais.

# Ar gyfer beth mae'r cyllid yma



Mae'r gronfa yma ar gyfer sefydliadau, nid ar gyfer pobl.



Mae'r arian ar gyfer sefydliadau sydd angen help **nawr**.



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi arian i sefydliadau sydd heb gynllun ariannol da. Mae hyn yn meddwl cynlluniau am arian y sefydliad.

Rydyn ni yn fwyaf tebygol o roi arian i sefydliadau sydd:



- Yn gallu dangos eu bod mewn perygl difrifol gyda'u sefyllfa ariannol. Dydyn ni ddim yn gallu eich helpu chi i dyfu yn unig.



- Egluro sut y bydd yr arian yma yn eu gwneud yn gryfach yn y dyfodol.




- Cael cynllun clir. Ddylai talu am help gyda chodi arian ddim fod yr unig ran o'ch cynllun.

**Fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar:**




- Cyllid rydych chi'n gallu ei **hawlio cyn 31 Mawrth 2025**.

- Ceisiadau lle byddwch chi yn **gwario'r rhan fwyaf o'r arian erbyn 31 Mawrth 2025**.

## Beth fyddwn ni ddim yn rhoi arian ar ei gyfer



Fyddwn ni ddim yn delio gyda bylchau yn eich cyllideb os nad oes gennych chi gynllun clir i drwsio eich cyllid.



Fyddwn ni ddim yn talu am eitemau fel offer neu waith adeiladu.



Fyddwn ni ddim yn cyfnewid y gwahaniaeth rhwng eich cais Adolygiad Buddsoddi a'ch cynnig ariannu aml-flwyddyn. (Mae'r rhain yn fathau o gyllid gan Gyngor y Celfyddydau.)



Fyddwn ni ddim yn talu am swyddi newydd oni bai eich bod yn dangos y byddan nhw yn helpu eich sefyllfa ariannol yn y tymor hir.

# Beth sydd angen i chi ei wneud




Darllenwch y rheolau i weld os ydych chi'n gallu gwneud cais.



Atebwch **yr holl** gwestiynau yn glir. Mae'r cwestiynau o dan **Sut i wneud cais** ar **dudalen 13**. Os na fyddwch yn ateb yr holl gwestiynau, efallai na fyddwn yn derbyn eich cais.

**Pwysig:**



- Dydyn ni ddim yn gallu gofyn i chi am fwy o wybodaeth ar ôl i chi anfon eich cais.



- Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch cyn y dyddiad cau. Efallai na fyddwn ni yn gallu ateb cwestiynau ar ôl 23 Hydref.



- Efallai y byddwn ni yn rhannu cwestiynau ac atebion ar ein gwefan i helpu eraill.

# Y rheolau am bwy sydd yn gallu bod yn gymwys

**Er mwyn gwneud cais, mae'n rhaid i'ch sefydliad:**



Bod yn sefydliad dielw. Mae hyn yn meddwl nad ydy'r sefydliad wedi'i sefydlu i wneud arian i bobl, ond i wneud gwaith da. Efallai y byddan nhw yn cael eu galw'n bethau fel:

- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)
- Cymdeithas Anghorfforedig
- Awdurdod Lleol, Brifysgol, Bwrdd Iechyd, neu Gorff Cyhoeddus arall.



Os nad ydy eich math chi o sefydliad ar y rhestr yma, cysylltwch â ni ar cefnogibusnes@celf.cymru cyn i chi wneud cais.

**Mae'n rhaid i'ch sefydliad hefyd:**



- Gweithio yn y sector celfyddydau nid-er-elw.



- Bod ag o leiaf dau gyfarwyddwr neu ymddiriedolwr sydd ddim yn perthyn i'w gilydd ac sydd ddim yn byw gyda'i gilydd. Os ydyn nhw wedi'u cofrestru yn yr un cyfeiriad ond dydyn nhw ddim yn byw yno, dywedwch wrthyn ni pam.




- Wedi ei leoli yng Nghymru. Os ydy eich swyddfa gofrestredig y tu allan i Gymru, dywedwch wrthyn ni am eich canolfan sefydlog yng Nghymru.




- Bod dros 3 mlwydd oed erbyn 31 Hydref 2024. Os ydych chi'n ffeilio cyfrifon yna mae'n rhaid eich bod wedi ffeilio o leiaf 1 set o gyfrifon a bod yn gyfoes ag unrhyw adroddiadau cyfreithiol y mae angen i chi eu gwneud.

**Rhai sefydliadau sydd ddim yn gallu gwneud cais:**



- Ysgolion
- Adrannau'r llywodraeth
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- Sefydliadau sydd ddim wedi cwblhau adroddiadau rydyn ni eu hangen ar gyfer grantiau eraill Cyngor Celfyddydau Cymru
- Sefydliadau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau neu lle mae elw yn gallu mynd i aelodau neu gyfranddalwyr.



Os byddwn ni yn darganfod nad ydy eich sefydliad yn bodloni'r rheolau, fe fyddwn ni yn stopio eich cais ac yn dweud wrthych pam.

# Sut i wneud cais



Gofynnwch am ffurflen gais drwy anfon e-bost atom ar **cefnogibusnes@celf.cymru**.

Ar y ffurflen fe fyddwn ni yn gofyn i chi:



- Faint o arian rydych chi'n gofyn amdano?
- Gwybodaeth sylfaenol am eich sefydliad.




Rhaid i chi roi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth rydyn ni ei hangen mewn dogfen Word. Defnyddiwch y templed Word o'n gwefan.



Darllenwch y cwestiynau nesaf a'u **hateb yn glir yn y ddogfen Word**. Os na fyddwch yn ateb cwestiwn, fyddwn ni ddim yn gallu asesu'r rhan honno, ac ni fydd eich cais yn llwyddiannus.

# Cwestiynau mae angen i chi eu hateb



**1. Ydy eich sefydliad mewn perygl ariannol difrifol ar hyn o bryd? Ydy'r risg yma yn peryglu dyfodol eich sefydliad?**



**2. Pa broblemau ydych chi'n eu hwynebu, a sut fydd y cyllid yma yn helpu?**

**3. Fydd y cyllid yma yn gwneud eich sefydliad yn gryfach yn y dyfodol?**



- A fydd yn eich stopio rhag bod angen mwy o arian yn nes ymlaen?
- Dangoswch dystiolaeth i ni, fel cyllidebau neu lifoedd arian, i esbonio sut fydd eich cyllid yn gwella. Dogfennau am arian ydy'r rhain.

**4. Os ydych chi'n gofyn am arian i ddiogelu swyddi, faint o swyddi fyddwch chi'n eu gwarchod?**



- Dywedwch wrthyn ni faint o swyddi llawn amser a faint o swyddi pobl fyddwch chi yn eu harbed.
- Am ba hyd y bydd y cyllid yma yn amddiffyn y swyddi?
- Fyddwn ni ddim yn asesu'r cwestiwn yma gan nad ydy pob cais yn ymwneud â swyddi, ond mae'n bwysig i'n hadroddiadau.

## Dogfennau mae angen i chi eu darparu

### 1. Ffurflen gais



- Gofynnwch am ffurflen drwy anfon e-bost atom ar cefnogibusnes@celf.cymru.



- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn yn glir.



- Yn y blwch sy'n gofyn am fwy o wybodaeth am eich prosiect, ysgrifennwch 'gweler Atodiad Word.'

### 2. Dogfen Word




- Lawrlwythwch y templed Word o'n gwefan a'i ddefnyddio.



- Atebwch yr holl gwestiynau a llwythwch eich dogfen Word gyda'ch ffurflen gais.



- Os nad ydych yn cynnwys hyn, dydyn ni ddim yn gallu asesu eich cais.

**3. Gwybodaeth ariannol**




- Fe ddylai hyn fod ar ffurf Excel.




- Rhowch gyllideb sy'n dangos y swm rydych yn gofyn amdano a sut y bydd yn helpu'ch sefydliad.



- Fe ddylai'r gyllideb ddangos cyflwr presennol eich sefydliad. Fe ddylai hefyd ddangos sut brofiad fydd hi yn y dyfodol os byddwn ni yn rhoi'r cyllid i chi.

# Sut byddwn ni yn asesu eich cais



Fe fyddwn ni yn edrych ar eich ffurflen gais, dogfen Word a gwybodaeth ariannol.

Efallai y byddwn ni hefyd yn edrych ar wybodaeth o unrhyw grantiau rydyn ni wedi'u rhoi i chi ers 1 Ebrill 2021. Mae hyn yn gallu cynnwys:




- Eich ffurflenni cais.
- Adroddiadau rydych chi wedi'u rhoi i ni.
- Cytundebau ariannu ar gyfer sefydliadau sydd yn cael arian aml-flwyddyn.



Fe fyddwn ni yn seilio ein penderfyniad ar eich gwybodaeth ariannol a pha mor dda mae eich atebion yn cyd-fynd â nodau'r gronfa.

# Ein penderfyniad



Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi, fe fyddwn ni yn anfon **cynnig** atoch chi.



Efallai na fyddwn ni yn rhoi'r swm llawn o arian rydych chi wedi gofyn amdano. Os nad ydyn ni yn gwneud hynny, fe fyddwn ni yn dweud pam yn y cynnig.



Os ydyn ni yn penderfynu peidio â rhoi cyllid i chi, fe fyddwn ni yn dweud pam.

# Pryd i wneud cais




Rydych chi'n gallu gwneud cais o **16 Hydref 2024**.




Rhaid i chi gyflwyno'ch cais erbyn **12:00 hanner dydd ar 28 Hydref 2024**.




Ein nod ydy dweud wrthych chi am ein penderfyniad erbyn canol mis **Rhagfyr 2024**.

## Sut i gael help



Os ydych chi angen help gyda'ch cais, anfonwch e-bost atom yn **cefnogibusnes@celf.cymru** cyn **23 Hydref 2024**.